## EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Ann Rees

**ARWYDDION**
Mae 'da ni newyddion da i'w gyhoeddi! Ar ôl ofni mai enw Saesneg byddai ar stad newydd y pentre, mae'n dda gallu cyhoeddi bydd y pentre yn dal i fod yn Gymreig o rhan enwau ei strydoedd. Yr enw a roddwyd i'r stad yw "Waun Hir".

**GWELLA**
Mae'n dda clywed bod Matthew Rhys Wilkinson, Heol y Parc, yn gwella ar ôl torri pont ei ysgwydd yn ddiweddar. Mae'n dda nad yw'r ddamwain wedi lleihau dim ar ei egni.

**COLLI MEDDYG**
Collodd y pentre un o'i gymeriadau anwylaf yn ystod y mis, sef Dr Tom Walker, Heol y Ffynnon. Roedd yn wr tawel diymhongar ond roedd stori gyffrous iawn y tu ôl i'r cyfan. Bu'n un o'r tîm blaengar fu yn arwain y byd wrth drin diciau. Roedd pobl o bobman yn derbyn ei arbenigrwydd. Diddorol oedd ei glywed yn dweud i'r holl ddatblygiadau fynd yn afraid dros nos fel petai, pan gyhoeddwyd darganfyddiad mathau newydd o gyffuriau. Diolch am gael adnabod un o ddynion mawr y byd meddygol. Roedd yn ffyddlon ym mhob angladd, ac yn yrrwr tacsi parod i Gymdeithas y Pensiynwyr. Gwelir ei eisiau yn fawr. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Walker a'r teulu.

**NEWYDDION DA**
Llongyfarchiadau i Rhian Watkins, Bryn Awel, Heol y Parc ar ei dyweddiad i Phillip Oxborrow, Faldingworth, Market Rasen, Swydd Lincoln. Mae Rhian yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Llanhari. Ar hyn o bryd mae hi'n gweithio yn Archifdy Hampshire yn Winchester ac mae Phillip yn gweithio ym Mhrifysgol Southampton.

**LLWYDDIANT YSGUBOL**
Roedd heolydd y pentre ar stop ar nos Sul, 5ed o Fawrth pan berfformiwyd "Godspell" gan fyfyrwyr Ysgol Gyfun y Cymer. Rhoddwyd perfformiad gwefreiddiol ganddynt a phopeth yn fywiog ac yn llawn direidi. Yn rhyfedd, roedd y damhegion a dywediadau bachog Iesu Grist yn dod yn fyw i ni i gyd. Hefyd, bu'n lwyddiant arall; roedd y noson yn sicrhau cefnogaeth i Llio Penri i fynd i weithio yn yr Affrig y flwyddyn nesaf.

## GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: E.June Huws

**LLONGYFARCHIADAU**
Mae Stuart Williams, Y Mans, newydd ddechrau ar ei swydd newydd fel Cadeirydd llawn amser Llysoedd diwydiannol Manceinion. Mae'n siwr fod gwyliau'r teulu yn Awstralia yn ystod mis Chwefror wedi ei atgyfnerthu ar gyfer y sialens o'i flaen.

**CAPEL BETHLEHEM CYMANFA'R PLANT**
Ar fore Sul, Mawrth y 5ed cynhaliwyd Cymanfa'r Plant o dan arweiniad medrus Bethan Owen, Caerdydd. Roedd casgliad ar gyfer Bopath Cymru a bu brawd Bethan, Hefin Owen yn annerch y gynulleidfa. Roedd yn achlysur hapus a'r gerddoriaeth gan Delwyn Sion a'i ffrindiau yn gefndir hyfryd i ganu'r plant.

Wedi'r oedfa roedd cinio o gawl a bara yn y festri gyda ieuenctid y Capel yn gweini ar y torfeydd llwglyd. Roedd yr awyrgylch yn hyfryd a digon o gyfle i gymdeithasu ac i fwynhau, hyd yn oed yn y gegin! Roedd yr elw yn agos i gan punt - rhagor i goffrau Bopath.

**DIWRNOD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD**
Cynhaliwyd noson weddi gan chwiorydd y capel ynghyd a chwiorydd capeli eraill yn yr ardal ar nos Wener y 3ydd o Fawrth. Cafodd pawb fendith o dan arweiniad sensitif Mrs Eirlys Davies.

**BUGEILIO'R GYMUNED**
Bu'r Ditectif Sarjant Vincent Price yn annerch cyfarfod Bugeilio'r Gymuned yn ddiweddar. Bu nifer o ladradau yn y pentref dros gyfnod y Nadolig ac mae'r gymuned ar ei gwyliadwraeth.

## CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Sheila Dafis

**CARDIAU CYMRAEG**
Diolch i Ann ac Ian Davies perchnogion swyddfa bost y Creigiau, am sicrhau amrywiaith o gardiau Cymraeg.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad buan i Sally Ann Jones, Parc y Fro ar ol derbyn llawdriniaeth feddygol.

**EISTEDDFODAU'R URDD**
Llongyfarchiadau i blant a phobl ifanc y Creigiau fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir yn ddiweddar. Roedd safon y cystadlu yn uchel, a phawb yn haeddu canmoliaeth er na fu pob un yn llwyddiannus.

**COGYDD**
Llongyfarchiadau i Fiona Whitehead, Ffordd Dinefwr, am ddod yn gyntaf ac ennill £100 yn y rhaglen deledu Ready, Steady, Cook.

**GWYLIAU**
Pob hwyl i blant y Cylch ar eu gwyliau Pasg, peidiwch a bwyta'r wyau siocled i gyd ar unwaith!


# YN EISIAU

**TIWTORIAID CYMRAEG I OEDOLION YM MORGANNWG GANOL**

Gwahoddir ceisiadau gan athrawon neu diwtoriaid trwyddedig am swyddi rhan amser gyda'r nos ac yn ystod y dydd ar gyfer dosbarthiadau o bob safon.

Dosbarthiadau unwaith yr wythnos am sesiwn 2 awr yw'r mwyafrif o'r dosbarthiadau hyn.

Y gyflog ar hyn o bryd yw £13.78c yr awr

Ceisiadau trwy lythyr a C.V. at :-

Swyddog Datblygu'r Gymraeg
Adran Addysg Gymundol
Swyddfa Addysg Taf Elāi
The Grange
Heol Tyfica
Pontypridd
Morgannwg Ganol
CF31 2DD

Croesewir ceisiadau oddi wrth unrhywun brwdfrydig rhugl a chywir ei Gymraeg. Chymraeg sydd am dderbyn hyfforddiant ar gyfer y gwaith uchod.